## Countryside Code

Please follow the Countryside Code and always remember to:

**Respect other people**
- Consider the local community and other people enjoying the outdoors
- Leave gates and property as you find them
- Keep to marked paths and trails

**Protect the natural environment**
- Leave no trace of your visit and take your litter home
- Keep dogs on leads
- Never pick or uproot plants

**Enjoy the outdoors**
- Plan ahead and be prepared
- Follow advice and local signs

## Y Côd Cefn Gwlad

Cadwch at y Côd Cefn Gwlad bob amser a chofio'r canlynol:

**Parchu pobl eraill**
- Ystyriwch y gymuned leol a'r bobl eraill sy'n mwynhau'r awyr agored
- Gadewch bob giât ac eiddo fel rydych yn eu canfod nhw
- Cadwch at lwybrau a thraciau sydd wedi'u marcio

**Gwarchod yr amgylchedd naturiol**
- Peidiwch â gadael unrhyw olion o'ch ymweliad ac ewch â'ch sbwriel adref gyda chi
- Cadwch gŵn ar dennyn
- Peidiwch byth â chasglu nad adwreiddio planhigion

**Mwynhau'r awyr agored**
- Cynllunio ymlaen llaw a bod yn barod
- Cadw at gyngor ac arwyddion lleol

## E-NEWS / E-NEWYDDION




*E-natur* is North Wales Wildlife Trust's free, monthly e-newsletter. Each copy contains three of four stories of interest to everyone who supports our work, plus details of our forthcoming events. Sign up today!

www.northwaleswildlifetrust.org.uk/e-natur

*E-natur* yw e-gylchlythyr misol rhad ac am ddim Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Mae pob copi yn cynnwys tair neu bedair stori o ddiddordeb i bawb sydd yn cefnogi ei'n gwaith, yn ogystal â manylion o ein digwyddiadau sydd i ddod. Cofrestrwch heddiw!

## LOCATION / LLEOLIAD




NorthWales WildlifeTrust

@North_Wales_WT




Aberduna Nature Reserve is 3 miles SW of Mold (OS Explorer Map 265). From Mold, follow the A494 and take the L turning to Maeshafn after passing through Gwernmynydd. Parking is sometimes available at the Wildlife Trust office on the R at the first sharp bend; if not, please park in the village of Maeshafn and use the map provided to find one of the entrances to the reserve.

Mae Gwarchodfa Natur Aberduna 3 milltir i'r de orllewin o'r Wyddgrug (Map OS Explorer 265). O'r Wyddgrug, dilynwch yr A494 a throwch i'r chwith i Faeshafn ar ôl mynd drwy Wernymynydd. Mae lle parcio ar gael weithiau yn swyddfa'r Ymddiriedolaeth Natur ar y dde ar ôl y tro sydyn cyntaf; os nad oes, parciwch ym mhentref Maeshafn a defnyddiwch y map sydd wedi'i ddarparu i ddod o hyd i un o fynedfeydd y warchodfa.

**www.northwaleswildlifetrust.org.uk**


**Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru**
**North Wales Wildlife Trust**
Llys Garth, Garth Road, Bangor,
Gwynedd, LL57 2RT
01248 351541
nwwt@wildlifetrustswales.org


*Charity number / Rhif elusen: 230772 Company number / Rhif cwmni: 773995*

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales · Hanson HeidelbergCement Group · co-op

YMDDIRIEDOLAETH natur WILDLIFE TRUST GOGLEDD CYMRU NORTH WALES

# Gwarchodfa Natur **Aberduna** Nature Reserve



Gwarchod **Natur** ar gyfer y Dyfodol
Protecting **Wildlife** for the Future

## Managing for Wildlife

The diverse plant community present on the dry limestone grassland is maintained primarily by ponies and sheep, which generally graze from September to March. Bracken and scrub is prevented from becoming too dominant, benefitting wildflowers. Glade creation and tree thinning occurs within the mixed broadleaved woodland to create a mix of tree ages and heights as well as encourage native ground flora to flourish. Logs and branches are left on the woodland floor to provide deadwood habitat for fungi and invertebrates as well as hibernation sites for amphibians.

## Rheoli Bywyd Gwyllt

Mae'r gymuned amrywiol o blanhigion ar y glaswelltir calchfaen sych yn cael ei chynnal yn bennaf gan ferlod a defaid, sy'n pori rhwng misoedd Medi a Mawrth fel rheol. Mae'r rhedyn a'r prysgwydd yn cael eu hatal rhag tyfu'n rhy gryf, sydd o fudd i flodau gwyllt. Mae llennyrch yn cael eu creu a'r coed yn cael eu teneuo yn y coetir llydanddail cymysg, er mwyn creu cymysgedd o oedran ac uchder yn y coed, ac i annog fflora brodorol y ddaear i ffynnu. Mae boncyffion a changhennau'n cael eu gadael ar lawr y coetir i ddarparu cynefin o bren marw i ffyngau ac infertebrata a safleoedd gaeafgysgu i amffibiaid.

## We rely on volunteers to manage this reserve – can you help?



## Rydyn ni'n dibynnu ar wirfoddolwyr i reoli'r warchodfa yma – fedrwch chi helpu?

**SPRING**
Bluebell
Early purple orchid
Willow warbler

**GWANWYN**
Clychau'r gog
Tegeirian porffor y gwanwyn
Telor yr helyg



Clive Nichols

**SUMMER**
Common rock-rose
Fritillary butterflies
Common lizard

**HAF**
Rhosyn y graig
Glöynnod byw y fritheg
Madfall



Philip Precey

**AUTUMN**
Waxcaps
Autumn gentian
Seasonal colours

**HYDREF**
Capiau cwyr
Crwynllys yr hydref
Lliwiau tymhorol



Debbie Evans

**WINTER**
Woodcock
Goldcrest
Snowdrop

**GAEAF**
Cyffylog
Dryw eurben
Eirlysiau



Margaret Holland

This nature reserve is one of more than 30 owned or managed by North Wales Wildlife Trust. By working with other landowners, managers and communities we aim to restore, recreate and reconnect fragmented natural habitats to achieve a landscape where wildlife can flourish and people can lead happier and healthier lives.

We are an independent, local charity, reliant on the support of our members and other donations. **Please help us if you can.**

**You can help protect wildlife by ...**
- **becoming a member** for just a few pounds per month
- **volunteering** to help
- **considering a Living Legacy** – a gift in your Will, whether small or large, would leave your footprint in our landscape for ever

Mae'r warchodfa natur yn un o fwy na 30 o eiddo i neu a reolir gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Trwy weithio gyda thirfeddianwyr, rheolwyr a chymunedau ein nod yw adfer eraill, ail-greu a ail-gysylltu cynefinoedd naturiol tameidiog i gyflawni tirwedd lle gall bywyd gwyllt ffynnu a gall pobl fyw bywydau hapusach ac yn iachach.

Rydyn ni'n elusen annibynnol, leol sy'n dibynnu ar gefnogaeth ein haelodau a rhoddion eraill. **Plîs helpwch ni os yw hynny'n bosib.**

**Gallwch chi helpu i warchod bywyd gwyllt drwy ...**
- **dod yn aelod** am ddim ond ychydig bunnoedd bob mis
- **gwirfoddoli** i helpu
- **ystyried gadael Rhodd Fyw** – byddai rhodd yn eich Ewyllys, boed fach neu fawr, yn gadael ôl eich troed ar ein tirwedd am byth



Join as a family member to receive our fun-filled *Wildlife Watch* or *Gwyllt!* magazines – and become part of the UK's leading environmental action club for kids!

Ymunwch fel aelod teulu i dderbyn ein cylchgronau difyr – *Wildlife Watch* neu *Gwyllt!* – ac i fod yn rhan o glwb mwyaf blaenllaw y DU sy'n cynnig cyfle i blant weithredu dros yr amgylchedd!

Gwarchodfa Natur
# Aberduna
Nature Reserve





## Welcome!
Aberduna is a striking 20-hectare reserve offering stunning views across the Alyn valley to Moel Famau and the Clwydian Range. The entire site is underlain by limestone, which strongly influences the habitats found on the reserve: woodland with glades, scrub, bracken, calcareous grassland, areas of exposed limestone and a small pond. During spring and summer the site is full of wildflowers – bluebell, early purple orchid, fragrant orchid, cowslip, common rock-rose and moonwort within the grassland areas, and upland enchanters nightshade, herb-paris, wood sorrel, wood anemone and goldilocks buttercup within the woodland. Violets grow in the dappled shade of bracken and trees, providing food for the caterpillars of fritillary butterflies.

## Croeso!
Mae Aberduna yn warchodfa 20 hectar drawiadol sy'n cynnig golygfeydd godidog ar draws dyffryn Alyn draw am Foel Famau a Bryniau Clwyd. Calchfaen yw sylfaen y safle cyfan ac mae'n dylanwadu'n fawr ar y cynefinoedd yn y warchodfa: coetir gyda llennyrch, prysgwydd, rhedyn, glaswelltir calchaidd, ardaloedd o galchfaen noeth a phwll bychan. Yn ystod y gwanwyn a'r haf, mae'r safle'n llawn blodau gwyllt – clychau'r gog, tegeirianau porffor y gwanwyn, tegeirianau pêr, briallu Mair sawrus, rhosyn y graig a lloerlys yn yr ardaloedd o laswelltir a llysiau'r swynwyr, llysiau Paris, suran y coed, blodau'r gwynt a chrafanc brân eurwallt yn y coetir. Mae fioledau'n tyfu yng nghysgod brith y rhedyn a'r coed, gan ddarparu bwyd i lindys glöynnod byw y fritheg.

**DID YOU KNOW?**
**The limestone that underlies Aberduna was formed by the remains of marine animals and plants that lived 350 million years ago when this land lay south of the equator under warm tropical seas.**



**WYDDOCH CHI?**
**Ffurfiwyd y calchfaen sy'n sylfaen i Aberduna gan weddillion planhigion ac anifeiliaid morol a oedd yn byw 350 o filiynau o flynyddoedd yn ôl pan oedd y tir hwn i'r de o'r cyhydedd o dan foroedd trofannol cynnes.**


Jon Hawkins

The dry stone wall at the quarry viewpoint is made from stones containing fossils from sea creatures, and today provides homes for common lizard and small mammals. Look out for the layers of limestone rock in the quarry cliffs.

Mae'r wal gerrig ger man gwylio'r chwarel wedi'i chreu o gerrig sy'n cynnwys ffosilau creaduriaid y môr a heddiw mae'n gartref i'r fadfall ac i famaliaid bach eraill. Cadwch lygad am haenau o greigiau calchfaen yng nghlogwyni'r chwarel.



Brightly coloured waxcap mushrooms can be found within the uppermost grazed grasslands from late summer through autumn.

Mae madarch cap cwyr lliwgar iawn i'w gweld yn y glaswelltiroedd uchaf sy'n cael eu pori o ddiwedd yr haf drwodd i'r hydref.

## KEY / CANLLAW
- Public footpath / Llwybr cyhoeddus
- Limestone grassland / Glaswelltir carreg galch
- Broadleaved woodland / Coedwig llydanddail
- Scrub / Prysgwydd
- Open water / Dŵr agored
- Aberduna quarry / Chwarel Aberduna
- Limestone ridges/ Esgair galchfaen
- Viewpoint / Gofygfa
- Pub/ Tŷ tafarn
- Information point/ Pwynt gwybodaeth

N
W E
S
0m 190m




**Health and Safety**
Footpaths pass through the reserve but can be steep, and the terrain is not suitable for prams or wheelchairs. Do not approach the ponies or sheep that graze the site and keep dogs on leads.

**Iechyd a Diogelwch**
Mae llwybrau troed yn mynd drwy'r warchodfa ond maent yn gallu bod yn serth ac nid yw'r tir yn addas i bramiau na chadeiriau olwyn. Peidiwch â mynd at y merlod a'r defaid sy'n pori'r safle a chadwch gŵn ar dennyn.

Twenty species of tree grow at Aberduna: ash, pedunculate oak, sessile oak, silver birch, downy birch, wild cherry, rowan, goat willow, rusty willow, crab apple, yew, holly, hazel, hawthorn, blackthorn, elder, sycamore, beech, turkey oak and european larch.

Mae ugain rhywogaeth o goed yn tyfu yn Aberduna: ynn, derw coesynnog, derw digoll, bedw arian, bedw cyffredin, ceirios gwyllt, criafol, helyg y geifr, helyg coch, afalau bach surion, yw, celyn, cyll, drain gwynion, drain duon, ysgaw, sycamorwydd, ffawydd, derw Twrci a llarwydd Ewropeaidd.

Aberduna has plants that support many butterfly species: caterpillars of green hairstreak feed on common rock-rose; common blue caterpillars feed on bird's-foot trefoil; and caterpillars of fritillaries feed on dog violet.

Mae gan Aberduna blanhigion sy'n cynnal llawer o rywogaethau o löynnod byw: mae lindys y brithribin gwyrdd yn bwydo ar rosyn y graig; mae lindys y glesyn cyffredin yn bwydo ar bys y ceirw; ac mae lindys y fritheg yn bwydo ar fioled y cŵn.


Amy Lewis


Bruce Shortland

Where soils are thin due to limestone being close to the surface, coarse grasses cannot dominate. This allows a diverse plant community to thrive – look for rock-rose, salad burnet, lady's bedstraw, wild thyme and quaking oat-grass.

Os yw'r pridd yn denau oherwydd bod y calchfaen yn agos at yr wyneb, ni fydd glaswelltau cras yn gallu rheoli. Mae hyn yn galluogi i gymuned amrywiol o blanhigion ffynnu – cadwch lygad am rosyn y graig, gwyddlwyn cyffredin, briwydd felen, teim gwyllt a chrydwellt.

**Where next?** Coed y Felin Nature Reserve (8 miles), near Mold, for a bluebell woodland and wildflower meadow.

**Ble nesaf?** Gwarchodfa Natur Coed y Felin (8 milltir), ger yr Wyddgrug, am goetir o glychau'r gog a dôl o flodau gwyllt.

**Over 100 walks, talks and family events!**
**www.northwaleswildlifetrust.org.uk/whats-on**
**Mwy na 100 o deithiau cerdded, sgyrsiau a digwyddiadau i deuluoedd**

Gwarchod **Natur** ar gyfer y Dyfodol
Protecting **Wildlife** for the Future

170713 Aberduna Leaflet FINAL MB.indd 2 09/08/2017 10:03:35